# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET

## DYDD MERCHER, 4 TACHWEDD 2020

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, A.Jarrett, D.Griffiths, S.Brennan a/ac P. Jackson

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Hydref.

4. **PARCIO CEIR DROS Y NADOLIG**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo parcio am ddim dros y Nadolig ym meysydd parcio Talu ac Arddangos Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe rhwng dydd Sadwrn, 12 Rhagfyr 2020 a dydd Gwener, 1 Ionawr 2021 yn gynhwysol

(ac eithrio meysydd parcio Y Gnoll, Parc Gwledig Coedwig Afan a glan môr Aberafan.)

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn cefnogi economi canol ein trefi, cydnabyddir y byddai darparu parcio am ddim dros y Nadolig yn cefnogi eu hadferiad ymhellach.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bod y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **CYNLLUN KICKSTART YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU (AGPH) CYNRYCHIOLYDD PORTH**

**Penderfynwyd:**

Cyflwyno'r cais Kickstart i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Byddai hyn yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i weithredu fel Cynrychiolydd Porth, i gefnogi busnesau lleol a phobl ifanc ddi-waith.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cynllun Kickstart i gael effaith gadarnhaol ar nifer y bobl ifanc 16 – 24 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn y Fwrdeistref Sirol a rhoi cyfle i fusnesau lleol greu swyddi newydd i gefnogi eu busnes drwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 5 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

7. **GORCHMYNION TRAFFIG - DIRYMU GORCHMYNION PRESENNOL, Y BWRIAD I ROI GORCHMYNION DEILIAID BATHODYNNAU I'R ANABL YN UNIG AR WAITH O DDYDD LLUN I DDYDD SADWRN 10AM I 6PM. AROS CYFYNGEDIG O DDYDD LLUN I DDYDD SADWRN 8AM I 6PM. CYFLWYNO GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG UN AWR, DIM DYCHWELYD O FEWN 2 AWR AC EITHRIO DEILIAID HAWLENNI AC AROS CYFYNGEDIG O DDYDD LLUN I DDYDD SADWRN 8AM I 6PM. UN AWR, DIM DYCHWELYD O FEWN 2 AWR, YN HERBERT STREET, PONTARDAWE.**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo hysbysebu dirymiad y Gorchmynion Traffig presennol (y bwriad i roi gorchmynion Deiliaid Bathodynnau i'r Anabl yn unig ar waith o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 10am i 6pm, Aros Cyfyngedig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm. Un awr, dim dychwelyd o fewn 2 awr ac eithrio deiliaid hawlenni o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 8am i 6pm. Un awr, dim dychwelyd o fewn 2 awr (gorchmynion rheoleiddio traffig) yn Herbert Street, Pontardawe (fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig yn cynnal darpariaeth parcio ar gyfer Deiliaid Bathodynnau i'r Anabl ac yn darparu rhywfaint o gymorth parcio i breswylwyr Herbert Street, Pontardawe.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer cynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

8. **PARHAD COVID-19 - CYMORTH I'R DIWYDIANT BYSUS**

Roedd yr aelodau'n gefnogol o'r newid i'r argymhellion a roddwyd gan Swyddogion, fel a fanylir isod.

**Penderfynwyd:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio a'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth a'r swyddogion hynny a ddynodwyd ganddynt i roi canllawiau Llywodraeth Cymru ar waith ynghylch gweinyddu'r Cynllun Brys ar gyfer Bysus wrth i'r dull hwn barhau i gefnogi'r diwydiant bysus.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio a'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth i lunio Cytundebau Indemniad COVID-19 gyda Gweithredwyr Cludiant Teithwyr yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru, Cymorth i'r Diwydiant Bysus COVID-19 Llywodraeth Cymru Ebrill 2020 ac unrhyw ganllawiau dilynol y gallai Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Bydd y cynnig yn helpu i gynnal gwasanaethau trafnidiaeth yn y tymor byr ac yn sicrhau y bydd gwasanaethau'n bodoli ar ddiwedd argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

10. **AILFODELU GORSAF DROSGLWYDDO TWYNI CRYMLYN**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo dyfarnu'r contract uniongyrchol ar gyfer Ymgynghorwyr Ymgynghorol dros Ailfodelu Gorsaf Drosglwyddo Twyni Crymlyn i SLR Consulting Ltd am gyfnod dwy flynedd y prosiect ar gyfer gwasanaethau fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a bod Swyddogion yn cwblhau'r cytundeb angenrheidiol a dogfennau cysylltiedig ar gyfer Fframwaith ESPO y sector cyhoeddus er mwyn hwyluso'r un peth.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Hwyluso datblygiad y gwaith ailfodelu y cytunwyd arno'n flaenorol gan Aelodau a lleihau risgiau'r prosiect.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **GORCHYMYN PRYNU GORFODOL**

**Penderfynwyd:**

Rhoi cymeradwyaeth i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gael awdurdod dirprwyedig i ddechrau ar y gwaith angenrheidiol o baratoi ar gyfer pwerau Gorchmynion Prynu Gorfodol i'w defnyddio gan y cyngor mewn perthynas â'r Hwb Trafnidiaeth arfaethedig ar gyfer Castell-nedd, ar gyfer yr eiddo a amlinellir yn goch ar gynllun 2. Rhoddir adroddiad i'r Aelodau i'w gymeradwyo i weld y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar yr adeg briodol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ailddechrau trafodaethau a chaffaeliadau.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru.

**CADEIRYDD**